

Digidol o fwriad? Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cyngorau yng Nghymru

Awst 2024



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ein Hadolygiad	6
Yr hyn a ganfuom	8
Atodiadau	
1 Adroddiadau ar gynghorau ledled Cymru	25
2 Ein cwestiynau a meini prawf archwilio	26

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r gwaith a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cyflwyniad

Mae dylunio trawsnewid digidol yn dwyn cyfleoedd enfawr, ond mae hefyd yn dwyn risgiau i werth am arian

- 1 Mae cynghorau'n darparu cannoedd o wahanol wasanaethau i dros 3 miliwn o bobl sy'n byw ledled Cymru. O fewn yr amrywiaeth eang hwn o wasanaethau a swyddogaethau, mae llw o gyfleoedd digidol, o fynediad ar-lein i wasanaethau, i gefnogi byw'n annibynnol, i awtomeiddio prosesau swyddfa gefn. Mae datrysiadau digidol yn cynnig y potensial i wella profiad dinasyddion o wasanaethau a chynyddu effeithlonrwydd.
- 2 Yn bwysig, mae digidol wedi dod i olygu mwy na chymhwyso technoleg yn unig. Mae'n rhoi pwyslais ehangach ar gynnydd a thrawsnewid. Mae digidol yn debygol o chwarae rhan ganolog yn rhaglenni newid cynghorau, wrth iddynt geisio manteisio ar ei bosibiliadau a darparu gwasanaethau cyhoeddus modern sy'n cael eu gyrru gan ddata ac sy'n diwallu anghenion a disgwyliadau eu dinasyddion.
- 3 Mae'r pwysau ariannol a galw cyffredinol yn golygu bod angen i gynghorau chwilio am ffyrdd newydd o gyflawni mwy am lai. Mae'n bosibl hefyd, wrth ddod allan o'r pandemig, fod disgwyliadau dinasyddion o ran sut a ble maen nhw'n derbyn gwasanaethau wedi newid. Mae technoleg yn parhau i newid, gan ddylanwadu ar ddisgwyliadau a chreu cyfleoedd newydd. Felly, rydym yn rhagweld cyflymiad yng ngweithrediad y cyngor o dechnolegau digidol yn y blynyddoedd i ddod.
- 4 Daw hyn â chyfleoedd, ond hefyd risgiau sylweddol i werth am arian. Er y gall datrysiadau digidol gynyddu cost-effeithiolrwydd gwasanaethau a swyddogaethau, yn aml gall technoleg newydd olygu bod angen buddsoddiad sylweddol rhag blaen. Yng Nghymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol eisoes wedi amlygu nad ydym wastad yn gweld tystiolaeth glir bod buddsoddi'n sylweddol mewn systemau newydd yn talu ar ei ganfed fel a fwriadwyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus¹.

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru [O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru, 2024](#)

- 5 Bydd yn bwysig i gynghorau ddiffinio'r hyn y maent am ei gyflawni yn y tymor hir, er mwyn arwain penderfyniadau buddsoddi. Bydd hefyd yn bwysig iddynt ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg, newidiadau yn y galw a datblygiadau mewn technoleg. Mae egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn darparu fframwaith i'w helpu i wneud hyn².
- 6 Os ydynt yn ei gael yn iawn, mae digidol hefyd yn fodd o gynorthwyo cynnydd tuag at eu hamcanion llesiant a gwella arferion gwaith. Gallai gyflymu cynnydd tuag at dargedau lleihau carbon neu hyrwyddo adfywio a thwf economaidd. Mae hefyd yn ganolog i weithio hybrid, gyda'i effeithiau dilynol ar lesiant, recriwtio a chadw staff. Mae gan dechnoleg ddigidol y potensial i wella mynediad at wasanaethau ar gyfer grwpiau penodol a gwella canlyniadau. Ar yr un pryd, mae risgiau bod newidiadau yn eithrio rhai, yn enwedig pobl hŷn, sy'n fwy tebygol o ddirodd canlyniadau negyddol dewisiadau amgen all-lein o ansawdd gwael neu nad ydynt yn bodoli³. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cynnwys amrywiaeth o ddinasyddion mewn prosesau datblygu a dylunio.
- 7 Bydd rhoi gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd eu gwaith ar ddigidol yn helpu cynghorau i sicrhau'r gwerth mwyaf, nawr ac yn y dyfodol. Bydd yn bwysig iddynt roi'r ystyriaethau hyn ar flaen y gad yn eu cynllunio a'u cyflawni wrth iddynt symud ymlaen gyda thrawsnewid digidol.

2 Mae Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi ystyr yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd cysylltiedig o weithio, y gellir eu crynhoi fel hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu ac atal. Mae rhagor o wybodaeth ar gael mewn [canllawiau statudol](#) ar y Ddeddf.

3 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, [erthygl ar-lein](#), 2024

Ein hadolygiad

- 8 Yn 2022-23, gwnaethom gynnal adolygiad strategaeth ddigidol. Gwnaethom edrych ar ddulliau strategol cynghorau o ymdrin â digidol, gan gynnal adolygiadau unigol ym mhob un o'r 22 prif gyngor ledled Cymru. Gwnaethom ganolbwyntio ar i ba raddau y mae eu strategaethau digidol:
- wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; a
 - byddai'n helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r cynghorau.⁴
- 9 Roedd yr adolygiad yn adeiladu ar ein hadolygiadau 'Llamu Ymlaen' o asedau a gweithlu, a gynhaliwyd gennym rhwng 2021 a 2023⁵.
- 10 Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn am y rhesymau canlynol:
- rhoi sicrwydd y bydd strategaethau digidol cynghorau yn helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.
 - rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r pennaeth datblygu cynaliadwy wrth ddylunio eu strategaethau digidol.
 - esbonio sut mae cynghorau'n defnyddio/cynllunio i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau gwell canlyniadau.
 - ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.

4 Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn o dan ddyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon (neu beidio) y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

5 Mae'r adroddiadau ar gyfer pob cyngor ar gael ar ein [gwefan](#). Gallwch hefyd ddod o hyd i'n hadroddiad cryno cenedlaethol, [Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau](#), ar ein gwefan.

- 11 Roedd ein ffocws ar 'ddulliau strategol' cynghorau tuag at ddigidol, yn ymwneud â mwy na dogfen strategaeth yn unig. Mae'r hyn a olygwn wrth ddull strategol o ymdrin â digidol wedi'i nodi isod:

Dull strategol o ymdrin â digidol yw...

- gyda chefnogaeth gweledigaeth glir, sy'n cael ei deall yn gyffredin o fewn y cyngor
- dull sefydliad cyfan, sy'n cydnabod bod cyfleoedd a goblygiadau ar draws gwasanaethau a swyddogaethau
- elfen allweddol o drawsnewid, sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau a gwerth am arian

Nid yw ymagwedd strategol at ddigidol yn...

- un ddogfen
- strategaeth ar gyfer yr adran TGCh
- canolbwyntio'n gyfan gwbl ar arferion mewnol ac isadeiledd

- 12 Nid oedd ein hadolygiadau yn asesu ansawdd prosiectau digidol a amlinellir mewn strategaethau na'r gwerth am arian a gyflawnwyd gan brosiectau digidol penodol.
- 13 Gallwch ddod o hyd i ddolenni i'r adroddiadau ar gyfer cynghorau unigol yn y map yn **Atodiad 1**.
- 14 Mae'r cwestiynau a'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Mae'r meini prawf archwilio yn y bôn yn nodi sut beth yw da a sut y byddem yn disgwyl dod o hyd iddo.

Yr hyn a ganfuom

Yn gyffredinol, er bod llawer o gynghorau yn cydnabod y rôl y gall digidol ei chwarae wrth gyflawni eu huchelgeisiau tymor hwy, mae gwendidau yn eu trefniadau yn peri risgiau gwerth am arian.

Roedd cynghorau, i raddau amrywiol, yn meddwl sut y gallent ddefnyddio digidol i gyflawni gwell canlyniadau a chyflawni eu huchelgeisiau strategol dros y tymor hir

- 15 Ar adeg ein hadolygiad, roedd gan hanner y cynghorau yng Nghymru strategaeth ddigidol gyfoes. Roedd yr hanner arall ar wahanol gamau o adnewyddu eu strategaethau digidol. Fodd bynnag, roedd cynghorau, i raddau amrywiol, yn meddwl sut y gallent ddefnyddio digidol i gyflawni gwell canlyniadau a chyflawni eu huchelgeisiau strategol dros y tymor hir.
- 16 Roedd y rhan fwyaf o gynghorau yn cynllunio dros orwel tymor canolig, ar 3-5 mlynedd i ddod. Yn gyffredinol, roeddent o'r farn mai dyma'r amserlen fwyaf priodol i gydbwysu'r angen i ymateb i dechnoleg sy'n newid yn gyflym wrth ganolbwyntio ar ganlyniadau tymor hwy. Rydym yn cydnabod y pwynt hwn. Rydym bob amser wedi bod yn glir bod mwy i gynllunio tymor hir na'r dyddiad ar strategaeth. Roedd yn gadarnhaol gweld cynghorau'n diffinio amcanion digidol a oedd yn ymestyn y tu hwnt i oes y strategaeth ac yn datblygu prosiectau sy'n gosod y sylfaen ar gyfer datblygu yn y dyfodol, megis buddsoddi mewn deallusrwydd artifisial, gwella sgiliau digidol neu seilwaith. Dylai hyn helpu cynghorau i ganolbwyntio ar eu huchelgeisiau tymor hwy ac osgoi dibyniaeth ar ymyriadau tymor byr a allai ddarparu llai o werth am arian.

- 17 Yn gysylltiedig â hyn, gwelwom fod cynghorau'n aml yn defnyddio tueddiadau'r dyfodol a sylfaen dystiolaeth eang, gan gwmpasu, er enghraifft, galw a risg gwasanaethau, sgiliau digidol a mynediad at dechnoleg. Fodd bynnag, gallai llawer fynd ymhellach. Yn bwysig, nid oedd y sail dystiolaeth yn aml yn tynnu ar ymwneud uniongyrchol â dinasyddion. Mae peidio â chynnwys dinasyddion wrth ddatblygu'r dull strategol, na'i gyflawni, yn peryglu dylunio dulliau nad ydynt yn diwallu eu hanghenion, ac yn peryglu eithrio gwahanol grwpiau. Gallai'r canlyniadau fod yn ganlyniadau gwaeth a gallai arwain at gynghorau yn gorfod addasu ac ailgynllunio gwasanaethau, gyda goblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau. Mae cynnwys dinasyddion yn golygu bod gan gynghorau well siawns o'i gael yn iawn y tro cyntaf.
- 18 Roedd rhai cynghorau'n gosod uchelgeisiau digidol tymor hwy, yng nghyd-destun eu nodau strategol ehangach, ac yn aml yn eu halinio â strategaethau a chynlluniau allweddol eraill. Roedd y blaenoriaethau digidol a welsom ar draws cynghorau yn ymdrin ag amrywiaeth o themâu, y gellir eu crynhoi yn fras fel:
- gwella gwasanaethau a mynediad atynt
 - cefnogi twf ac adfywio
 - cefnogi swyddogaethau a ffyrdd o weithio'r cyngor
 - hwyluso trawsnewid
 - gwell defnydd o ddata
- 19 Mewn rhai achosion, roedd cyfleoedd i gynghorau gryfhau ac ehangu gweithio ar draws gwasanaethau a swyddogaethau. Ar ben hynny, er i ni ddarganfod bod rhai cynghorau'n cyflawni gydag ystod eang o bartneriaid, gallai'r rhan fwyaf wneud mwy i nodi'r ystod lawn o bartneriaid allanol y mae angen iddynt weithio gyda nhw i gael y gorau o'u strategaethau digidol. Pan oedd cynghorau'n gweithio mewn partneriaeth i gyflawni elfennau o'u strategaeth ddigidol, roedd lle i wella sut maen nhw'n monitro effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ac yn dysgu ohono.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi gwendidau cyson o ran adnoddau a monitro sy'n peri risgiau gwerth am arian

- 20 Canfuom nad oedd strategaethau digidol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn seiliedig ar adnoddau gwybodaeth. Pan nodwyd gwybodaeth ariannol, roedd yn aml yn anghyflawn, neu roedd sail y symiau a nodwyd yn aneglur.
- 21 Roedd gwendidau hefyd mewn trefniadau i fonitro effaith a gwerth am arian prosiectau digidol. Nid oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau fodd o fonitro cyflawniad buddion, gan gynnwys arbedion ariannol, ar gyfer prosiectau unigol. Lle'r oedd hyn yn ei le, gwelsom nad oedd yn cael ei wneud yn gyson. At hynny, yn gyffredinol nid oedd gan gynghorau drefniadau systematig i fonitro a gwerthuso effaith eu strategaeth ddigidol yn ei chyfanrwydd.
- 22 Cyfyngwyd ymhellach ar allu cynghorau i sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian drwy eu gwaith ar ddigidol, gan ddiffyg dulliau systematig neu gyson o ddysgu. Mae gwerth mewn cynghorau sy'n ceisio dysgu o brosiectau digidol unigol, yn ogystal â gwerthuso eu dull gweithredu cyffredinol. Bydd gan y dysgu gymhwysedd ehangach ar draws eu gwaith ac mae'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol i'w rhaglenni newid. Mae cyfleoedd pellach hefyd i rannu dysgu ar draws cynghorau.

Yn sylfaenol, nid oedd yn ymddangos bod gan gynghorau ffocws penodol ar werth am arian na'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu eu strategaethau digidol.

- 23 Nid oedd yn ymddangos bod cynghorau yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn benodol ac yn fwriadol i'w gwaith ar ddigidol. Mae hyn yn gyffredin â chanfyddiadau ein hadolygiadau Llamu Ymlaen ar gynllunio'r gweithlu a rheoli asedau. Mae hyn yn awgrymu y gallai cynghorau fod yn llai tebygol o gydnabod bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn berthnasol i'w swyddogaethau a'u galluogwyr corfforaethol, nag i'w cynllunio corfforaethol a darparu gwasanaethau.
- 24 Yn yr un modd, yn gyffredinol nid oedd yn ymddangos bod ganddynt ffocws penodol ar werth am arian wrth ddatblygu eu strategaethau. Er bod elfennau o'r trefniadau angenrheidiol yn eu lle yn y rhan fwyaf o achosion, gallai cynghorau wneud mwy i sicrhau eu bod yn anelu at sicrhau gwerth am arian yn y tymor byr, canolig a thymor hir.

Nodwyd pum gwera allweddol yn ymwneud â thystiolaeth, cydweithio, adnoddau, effaith a dysgu

- 25 Fe wnaethom nodi rhai meysydd cyffredin i'w gwella ar draws y 22 cyngor. Maen nhw'n helpu i ddisgrifio'r sefyllfa ar draws Cymru. Maent yn wersi o'n gwaith sy'n cynrychioli'r prif gyfleoedd i gynghorau gryfhau eu defnydd o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian. Fodd bynnag, bydd y gwera hyn yn berthnasol i bob cyngor yn wahanol ac ni fwriedir iddynt fod yn set ychwanegol o argymhellion. Byddem yn annog cynghorau i'w hystyried yng nghyd-destun eu hadroddiadau eu hunain a nodi'r enghreifftiau ymarfer a gynhwysir.



1. Gallai cyngorau ddefnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach i lywio dull hirdymor sy'n canolbwyntio ar y dinesydd o ymdrin â digidol

Lle gall cyngorau wella

Beth all cyngorau ei wneud i wella

Ystyried newidiadau yn yr amgylchedd allanol a allai effeithio ar eu strategaethau digidol

- Gallai cyngorau roi ystyriaeth bellach i dueddiadau'r dyfodol i helpu i ddatblygu gweledigaethau ac amcanion hirdymor hyddysg. Gallai hyn gynnwys tynnu ar ffynonellau data lleol a chenedlaethol fel eu Hasesiadau Llesiant Lleol eu hunain ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Gallent hefyd ddefnyddio technegau dyfodol, megis sganio gorwelion, i nodi risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg. Er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â datblygiadau mewn technoleg, neu gymwysiadau newydd.
- Bydd angen i gynghorau adolygu eu strategaethau o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn ystyried gwybodaeth newydd. Byddai adolygiadau blynyddol yn rhoi'r hyblygrwydd i fod yn ymatebol. Gallai hyn helpu i roi sicrwydd i gynghorau bod eu strategaethau tymor canolig yn parhau i fod yn gyfoes.
- Os yw cyngorau am sicrhau bod eu strategaethau a'u prosiectau digidol yn cael eu cynllunio o amgylch anghenion dinasyddion, bydd angen iddynt ddeall beth mae'r dinasyddion hynny ei eisiau a'i angen.
- Gallai hyn gynnwys tynnu ar fewnwelediadau presennol, a gasglwyd trwy ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu eraill.
- Fodd bynnag, mae gwerth mewn cynnwys amrywiaeth y bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio'n uniongyrchol. Gallai peidio â gwneud hynny arwain at yr atebion anghywir, a allai arwain at neu gyfuno allgáu digidol grwpiau penodol a lleihau gwerth am arian.

Tynnu ar safbwynt dinasyddion

Engbreiffiau o arfer

Cyngor Powys: Tynnu ar sylfaen dystiolaeth eang

Mae'r Cyngor wedi tynnu ar amrywiaeth eang o wybodaeth, yn fewnol ac yn allanol, i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr am y sefyllfa gyfredol i oleuo ei strategaeth ddigidol. Roedd hyn yn cynnwys:

- ystod o bolisïau, strategaethau cenedlaethol a fforymau cydweithredol;
- ystyried tueddiadau demograffig, pwysau ariannol ac adolygiadau o wasanaethau;
- adolygiad o'r materion digidol allweddol ym Mhowys, Cymru a'r DU;
- y gyfres o achosion busnes a ddatblygwyd ar ôl ymgynghori â swyddogion, ystyried risgiau posibl, ac adnabod ffactorau llwyddiant tyngedfennol i gyflawni'r rhaglen;
- ymarfer cwmpasu yn bwrw golwg ar ba wasanaethau digidol oedd trigolion yn eu defnyddio fwyaf;
- ymarfer mapio proses yn canolbwyntio ar faterion o ran y galw mewn meysydd gwasanaeth i adnabod blaenoriaethau ar gyfer y Tîm Digidol;
- ymgynghori â chyflogion y Cyngor, busnesau lleol a thrigolion; a
- gweithdy Gwasanaethau Cymdeithasol i ddeall materion a wynebir ac adnabod datrysiadau digidol posibl.

Mae'r Cyngor yn nodi'r ffactorau hirdymor a allai effeithio ar ei strategaeth ddigidol. Defnyddiodd yr Asesiad Llesiant i adnabod anghenion y boblogaeth yn y dyfodol. Mae wedi cydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynhyrchu Banc Gwybodaeth Llesiant sy'n darparu mewnwelediad a gwybodaeth wedi'u hawtomeiddio o setiau data'r Cyngor, yn ogystal â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a StatsCymru. Mae achosion busnes y strategaeth ddigidol yn nodi tueddiadau posibl yn y dyfodol ac yn gwneud sylwadau am risgiau a chyfleoedd posibl yn y dyfodol. Mae Tîm Gwasanaethau Digidol y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda gwasanaethau i ddeall eu cyfeiriad, eu hanghenion a'u heriau yn y dyfodol. Maent yn cynnal diwrnodau cwrdd-i-ffwrdd rheolaidd i sganio'r gorwel ac ymchwilio i'r modd y gallai'r Cyngor ddefnyddio technoleg ddigidol a data i wella profiad cwsmeriaid.

Castell-nedd Port Talbot: Deall y sefyllfa gyfredol lle mae digidol yn y cwestiwn

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei ddarpariaeth ddigidol, sydd wedi llywio a goleuo ei strategaeth. Yn 2021, fe roddodd y Cyngor gomisiwn i ddarparwr allanol i gynnal adolygiad eang o'i wasanaethau digidol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymgynghori'n helaeth â staff i ddeall capasiti a gallu digidol yn y Cyngor. Tynnodd y Cyngor ar ddata mewnol helaeth a defnyddiodd ffynonellau tystiolaeth allanol i gael golwg ehangach ar y sefyllfa gyfredol yn y Sir megis cyfraddau allgau digidol, y seilwaith digidol a blaenoriaethau digidol rhanbarthol a chenedlaethol.

Cyngor Casnewydd: Ceisio barn trwy wahanol sianelau

Fe ymgysylltodd y Cyngor â'i gymunedau trwy ystod o sianelau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad trwy amryw ddulliau ymgysylltu. Roedd hyn yn cynnwys arolwg trwy'r ddarpariaeth Wi-Fi ar fysiau lleol, ac arolygon ymgynghori â'r cyhoedd trwy ei lyfrgelloedd a phum hyb cymunedol. Fe ymgysylltodd y Cyngor hefyd â grwpiau megis Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) Casnewydd, ei rwydweithiau Amrywiaeth a Balchder ar gyfer staff ac aelodau o Ardal Gwella Busnes Casnewydd.

Cyngor Torfaen: Defnyddio personâu cwsmeriaid i lywio dyluniad gwasanaethau

Mae'r Cyngor yn defnyddio 'Personâu Cwsmeriaid', sy'n cyd-fynd â'r strategaeth ddigidol, i helpu i oleuo gwaith yn y dyfodol i ail-ddylunio gwasanaethau. Datblygwyd y personâu hyn gan ddefnyddio timau ar draws y Cyngor ac fe'u goleuwyd gan ffynonellau data mewnol ac allanol, gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-20, Arolwg Trigolion 2021, data'r Cyfrifiad a data Galw Torfaen 2021-22. Y bwriad yw y byddai'r personâu'n helpu i ddadansoddi taith nodweddiadol cwsmeriaid ac adlewyrchu anghenion nodweddiadol cwsmeriaid a fyddai'n defnyddio gwasanaethau, gan ddarparu mewnwelediad defnyddiol ar gyfer y Cyngor i'w helpu i ddeall profiad a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Yn y ffordd yma, gellid eu defnyddio i helpu i lywio dyluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol.



2. Gallai cyngorau fynd ymhellach i weithio ar draws ffiniau mewnol a chyda phartneriaid allanol i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'u strategaethau digidol

Lle gall cyngorau wella

Gwneud y cysylltiadau â'r ystod lawn o strategaethau a chynlluniau cysylltiedig

Beth all cyngorau ei wneud i wella

- Gallai cyngorau gynyddu gwerth eu strategaethau digidol i'r eithaf drwy weithio ar draws gwasanaethau a swyddogaethau. Mae cyfleoedd i wneud cysylltiadau ag ystod o strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
 - y cynllun corfforaethol
 - y gyllideb flynyddol a'r cynllun ariannol tymor canolig
 - cynllun rheoli asedau
 - rhaglen newid
 - strategaethau gweithio'n ddoethach/ gweithio hybrid
 - cynllun y gweithlu
 - cynllun lleihau carbon
 - cynllun ymgysylltu â chwsmeriaid/ strategaeth cyfranogi
 - cynllun seibergadernid
- Gallai defnyddio dull integredig helpu i leihau dyblygu ac adnabod cyfleoedd i ddwyn manteision lluosog.

Adnabod a nodi gyda phwy y gallant weithio a sut

- Bydd angen i gynghorau ystyried strategaethau digidol partneriaid os ydynt am nodi'r ystod lawn o gyfleoedd ar gyfer alinio a chydweithio.
- Gallai'r cyfleoedd hyn gynnwys cydgomisiynu, caffael neu rannu neu gyfuno adnoddau eraill. Gall caffael cydweithredol alluogi partneriaid i gronni eu hadnoddau a throsoli eu pŵer prynu cyfunol i sicrhau bargeinion gwell gan gyflenwyr tra'n lleihau costau a gwella gwerth am arian.
- Gall gweithio mewn partneriaeth arwain at rannu gwybodaeth, arbenigedd a/neu adnoddau a all arwain at ganlyniadau gwell a gwella gwerth am arian ar yr un pryd. Byddai cynnal dadansoddiad rhanddeiliaid yn helpu i roi sicrwydd i gynghorau eu bod wedi nodi'r holl gyfleoedd priodol i gydweithio.
- Lle mae cynghorau wedi ymrwymo i bartneriaethau, gan gynnwys gyda'i gilydd, dylent sicrhau eu bod yn monitro eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac i ba raddau y maent yn helpu i sicrhau gwerth am arian, gweler hefyd isod.

Enghreifftiau o arfer

Castell-nedd Port Talbot: Strategaeth ddigidol integredig

Ceir llawer o gysondeb rhwng cynllun corfforaethol y Cyngor sy'n datgan ei fwiadau digidol ymhen 5 mlynedd ac ymhen 20 mlynedd, y Rhaglen Newid Strategol, y Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy a 'Dyfodol Gwaith – Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu'. Mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer digidol yn gyson ag un y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Maent i gyd yn crybwyll pwysigrwydd digidol i ddod yn Gyngor clyfar a chysylltiedig ac fel lle. Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Trawsnewid Digidol i lywio'r drefn o flaenoriaethu gweithgareddau, gan sicrhau cysondeb â blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys swyddogion gwasanaethau digidol a chynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth. Gall cynrychiolaeth ar draws gwasanaethau'r Cyngor leihau'r risg o ddyblygu ymdrechion, gall adnabod cyfleoedd i wahanol wasanaethau gydweithio i ddwyn manteision lluosog a sicrhau dealltwriaeth gyffredin am flaenoriaethau digidol y Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i wireddu ei uchelgeisiau strategol ar gyfer digidol. Er enghraifft, adnabu angen i foderneiddio sut y mae'n rheoli data, ymchwil a dadansoddiadau ac yn eu bwydo i mewn i'w brosesau penderfynu. I gyflawni hyn, adnabu'r Cyngor waith gyda phartneriaid o'r byd academiaidd, maes iechyd y cyhoedd, cyrff statudol, mudiadau gwirfoddol a'r gymuned. Dylai hyn helpu'r Cyngor i gael gafael ar dystiolaeth i oleuo polisiau a strategaethau yn y dyfodol.

Cyngor Ceredigion: Cysoni'r strategaeth ddigidol â phartneriaid

Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol nesaf, mae'r Cyngor yn sicrhau ei bod yn gyson â'i amcanion strategol a blaenoriaethau ei bartneriaid. Ar adeg ein hadolygiad ni, roedd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ymgynghori â'i gilydd ynghylch eu huchelgeisiau a oedd yn dod i'r amlwg ar gyfer digidol gyda golwg ar sicrhau integreiddio rhwng y ddau gorff cyhoeddus.

Cyngor Caerdydd: Integreiddio a chydweithio ar ddigidol

Mae strategaeth ddigidol y Cyngor wedi'i hintegreiddio â'i flaenoriaethau strategol allweddol. Er enghraifft, ei bolisi gweithio hybrid a'i strategaeth Caerdydd Un Blaned, trwy gynorthwyo staff i fabwysiadu trefniadau gweithio ystwyth i helpu i leihau effaith carbon cymudo gan ei staff. Mae hefyd yn gyson ag amcanion llesiant y Cyngor, gyda digidol yn cael ei ystyried yn allweddol i roi cymorth i'w cyflawni.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid. Er enghraifft, ar weithfannau ystwyth gyda'r gwasanaethau brys, cynllun dyraniadau tai ar y cyd gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a nifer o fentrau gydag addysg uwch.

Abertawe: Cyflawni mewn partneriaeth

Mae'r Cyngor yn cyflawni nifer o wahanol weithgareddau cydweithredol gyda chynghorau eraill yn y rhanbarth, y sector preifat a'r trydydd sector i wella cysylltedd digidol, seilwaith digidol, cynhwysiant digidol a sgiliau digidol. Mae'r strategaeth ddigidol yn cyfeirio at weithio mewn partneriaeth, er enghraifft trwy'r Fargen Ddinesig a chyda phartneriaid ym myd addysg. Mae gan y Cyngor hefyd drefniant cydweithio adeiladol gydag Ardal Gwella Busnes. Mae'r bartneriaeth hon yn cydnabod sgiliau ac arbenigedd pob sefydliad ac mae'n cydweithio i ddatblygu cynnyrch y mae'n gobeithio y bydd o'r un faint o fudd i fusnesau a'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol gyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol ac mae wedi datblygu ffactorau llwyddiant tyngedfennol ar gyfer prosiectau digidol yn seiliedig ar bum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.



3. Gallai cynghorau wneud mwy i nodi'r manteision y gellid eu cyflawni a'r adnoddau sydd eu hangen i'w helpu i wireddu uchelgais

Lle gall cynghorau wella

Beth all cynghorau ei wneud i wella

Dyrannu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r strategaethau

- Bydd yn bwysig i gynghorau ddeall goblygiadau ariannol tymor byr a hwy eu strategaethau digidol.
- I wneud hyn, bydd angen iddynt nodi costau llawn eu prosiectau digidol arfaethedig, yn ogystal â'r buddion a fwriadwyd, gan gynnwys arbedion ariannol. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i helpu i benderfynu pa brosiectau y dylid eu datblygu. Hebdo, ni fydd cynghorau'n sicr eu bod yn dewis y prosiectau mwyaf cost-effeithiol a all sicrhau'r canlyniadau gorau. Ni fyddant ychwaith yn gallu nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth gyfan.

Meithrin y capasiti a'r gallu angenrheidiol i ategu eu strategaethau

- Er nad ydym o reidrwydd yn disgwyl i strategaethau digidol gynnwys gwybodaeth fanwl am gostau, byddem yn disgwyl gweld gwybodaeth o'r fath yn cael ei nodi yn yr achosion busnes, cynlluniau gwasanaeth neu ddogfennau perthnasol eraill sy'n sail i'r strategaeth.
- Bydd angen i gynghorau ddeall gallu digidol a gallu ar draws eu sefydliadau i gefnogi darpariaeth effeithiol ac amserol.
- Mae llawer o gynghorau yn wynebu heriau wrth recriwtio a chadw staff arbenigol, gan gynnwys staff TGCh. Byddai gwasanaethau TGCh yn elwa o gynlluniau'r gweithlu i sicrhau bod ganddyn nhw'r bobl iawn, gyda'r sgiliau cywir, ar yr adeg iawn.
- Bydd angen i gynghorau hefyd nodi'r sgiliau ehangach sydd eu hangen arnynt i gefnogi eu strategaethau digidol, dadansoddwyr busnes a dadansoddwyr data. Heb gymryd camau o'r fath, ni fydd cynghorau'n sicr y byddant yn gallu cyflawni eu strategaethau digidol.

Enghreifftiau o arfer

Cyngor Powys: Darparu adnoddau ar gyfer cyflawni'r strategaeth ddigidol i gyflawni manteision hirdymor

Mae'r Cyngor yn buddsoddi yn ei ddull strategol lle mae digidol yn y cwestiwn, gan daro cydbwysedd rhwng buddsoddiadau byrdymor a hirdymor, a dyrannu adnoddau i gyflawni deilliannau gwell yn y tymor hir. Mae o'r farn bod digidol yn allweddol i lywio gwelliant trawsnewidiol i bob gwasanaeth. Ategir strategaeth ddigidol y Cyngor gan gyfres o dri achos busnes, sy'n nodi cyllid dros dri cham. Fe wnaeth y ddau achos busnes cyntaf ddyrannu dros £5.2 miliwn ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2025 ac mae'r trydydd wedi sicrhau £3.9 miliwn ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Yn ychwanegol at y symiau o arian y mae'r Cyngor yn eu buddsoddi, mae'r achosion busnes yn eitemeiddio symiau'r arbedion y mae'r Cyngor yn amcanu at eu creu trwy weithredu'r strategaeth. Mae'r achosion busnes hefyd yn nodi'n glir beth yw'r risgiau, yn ogystal â chamau lliniaru posibl. Trwy ddyrannu cyllid o'r fath i ategu'r strategaeth ddigidol ac asesu risgiau o ran adnoddau, mae'r Cyngor yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yn cyflawni ei ddeilliannau bwriadedig.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot: Buddsoddi mewn capasiti a gallu digidol

Mae'r Cyngor yn deall rôl alluogi digidol a'i bwysigrwydd i gynorthwyo'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol. Fe gwblhaodd y Cyngor waith i ailstrwythuro'i wasanaeth TG blaenorol ac fe greodd Wasanaeth Digidol ac fe ddyrannodd £100k tuag at y broses ailstrwythuro. Mae'r Gwasanaeth Digidol, ochr yn ochr â'i wasanaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, wedi'i fwriadu i gynorthwyo'r gweithlu i wella capasiti a gallu digidol yn ogystal â gwella datblygiad gyrfa, cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa a threfniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae'r dull hwn yn cynnig y potensial i roi cymorth digidol ychwanegol i'r Cyngor a sefydlogrwydd o ran cyflawni ei drawsnewid digidol.

Cyngor Sir Gâr: Buddsoddi i arbed

Mae'r Cyngor wedi dyrannu arian blyneddol sylweddol i gefnogi trawsnewid digidol. Un o amodau allweddol cael cyllid cyfalaf yw bod rhaid i'r gwasanaeth perthnasol ymrwymo i'r costau cyfalaf parhaus a chyllidebu ar eu cyfer i gyflawni trawsnewid cynaliadwy. I sicrhau cyllid, rhaid i gynigion ar gyfer prosiectau amlinellu'r arbedion a'r manteision y disgwylir i'r prosiect eu cyflawni. Mae nifer o wasanaethau hefyd wedi cyllido swyddi staff digidol pwrpasol i'w helpu i weithredu trawsnewid digidol. Mae'r gwasanaethau hyn yn ystyried bod hwn yn gyfle ar gyfer buddsoddi i arbed. Maent yn cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn adnodd wedi'i neilltuo i hwyluso trawsnewid digidol heb gystadlu â gwasanaethau eraill am adnodd corfforaethol y mae pen draw iddo.



4. Mae angen i gynghorau sicrhau eu bod yn gallu asesu effaith eu strategaethau digidol a'u prosiectau unigol

Lle gall cynghorau wella

Beth all cynghorau ei wneud i wella

Gwerthuso effaith a gwerth am arian prosiectau digidol

- Os ydynt am werthuso effaith a gwerth am arian yn gyson, bydd angen methodoleg ar gynghorau i dimau prosiect wneud cais i'w prosiectau digidol.
- Dylai hyn gynnwys nodi costau tebygol a buddion arfaethedig prosiectau digidol ymlaen llaw. Gallai'r buddion hyn fod ar ffurf arbedion ariannol neu welliannau mewn gwasanaethau a chanlyniadau, sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol ehangach cynghorau. Gallai buddion anariannol, er enghraifft, gynnwys yr effaith ar wahanol grwpiau neu leihau carbon.
- Ar ôl nodi'r manteision a fwriadwyd, bydd yn hanfodol i gynghorau fonitro eu sylweddoliad. Bydd angen iddynt sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd.

Gwerthuso effaith strategaethau digidol a'u gwerth am arian

- Bydd angen mesurau ar gynghorau sy'n eu galluogi i ddeall effaith a gwerth am arian eu strategaethau digidol.
- Gallai'r mesurau hyn ymwneud â thargedau cynilo neu welliannau mewn gwasanaethau a chanlyniadau, sy'n gysylltiedig â'u hamcanion strategol ehangach (gweler hefyd uchod). Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r mesurau hyn adlewyrchu cydweithredu, trwy'r effaith ar bartneriaid neu amcanion a rennir.
- Bydd sefydlu trefniadau ar gyfer prosiectau unigol, fel y disgrifir uchod, yn helpu cynghorau i asesu effaith ar draws y strategaeth gyfan.

Sicrhau bod goruchwyliaeth ac atebolrwydd priodol mewn perthynas â gwireddu uchelgeisiau strategol

- Mae'n anorfod y bydd elfennau o waith cynghorau ar ddigidol yn golygu adnoddau sylweddol a risgiau cysylltiedig. Mae'n bwysig, felly, bod cynghorau'n rhoi'r trefniadau llywodraethu cywir ar waith i:
 - fonitro cynnydd y prosiectau; a
 - monitro budd cyfunol prosiectau a chynnydd tuag at yr uchelgais ar y cyfan.

Engheifftiau o arfer

Cyngor Abertawe: Trefniadau i fonitro gwerth am arian prosiectau digidol

Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Trawsnewid Digidol i oruchwyllo'r strategaeth ddigidol a phrosiectau digidol unigol. Mae'r Aelod Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau'n cadeirio'r Bwrdd Trawsnewid Digidol. Cynrychiolir pob cyfarwyddiaeth ar y Bwrdd yn ogystal â swyddogion o swyddogaethau corfforaethol megis adnoddau dynol, cyllid, a'r tîm digidol. Bydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol yn monitro cynnydd a risgiau ar gyfer yr holl brosiectau digidol ni waeth beth fo ffynhonnell y cyllid. Ar adeg ein gwaith maes roedd y Cyngor wrthi'n datblygu offeryn tracio 'manteision' i ategu hyn.

Mae gan y Cyngor wybodaeth ar lefel prosiectau unigol i allu pennu'r cynnydd a gwerth am arian yn y dyfodol. Mae angen i wasanaethau sy'n cyflwyno syniadau ar gyfer prosiectau digidol i'r Bwrdd Trawsnewid Digidol ddangos cysondeb â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a strategaeth ddigidol y Cyngor, yn ogystal â'r canlynol:

- arbediad yn y cynllun ariannol tymor canolig (gan nodi'r swm ac erbyn pryd);
- adnabod cyfleoedd cyllido eraill;
- manteision na ellir eu troi'n arian parod; a hefyd
- pa un a yw'r prosiect yn gwella gwasanaeth cwsmeriaid yn uniongyrchol.

Mae'r Cyngor wedi datblygu meini prawf sgorio cadarn i asesu rhinweddau'r prosiectau digidol arfaethedig unigol yn seiliedig ar y manylion uchod a ddarperir gan wasanaethau. Trwy ofyn i wasanaethau nodi costau a manteision prosiectau unigol wrth ofyn am gymorth ariannol, mae'r Cyngor yn meddu ar yr wybodaeth ar y dechrau i asesu a monitro costau a manteision wrth fonitro cynnydd.



5. Gallai cynghorau ddefnyddio dull dysgu mwy systematig, er mwyn iddynt allu addasu a gwella eu gwaith ar ddigidol

Lle gall cynghorau wella

Beth all cynghorau ei wneud i wella

Dysgu o brosiectau digidol

- Er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio ar bob cyfle i ddysgu o brofiad, gallai cynghorau gynnal adolygiadau rheolaidd ar ôl gweithredu o'u prosiectau digidol. Bydd pob prosiect digidol yn wahanol, a bydd potensial i lunio dysgu gwerthfawr gan bob un i gefnogi gwelliannau yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys dysgu gwersi am effeithiolrwydd:
- cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys:
 - cydweithio – sut y mae'r prosiect wedi helpu'r cyngor i gyflawni canlyniadau gwell a mwy o werth am arian, gan gynnwys rhannu adnoddau, gwella cydnerthedd ac osgoi dyblygu; a
 - chynnwys – ansawdd ac effeithiolrwydd ei weithgarwch cynnwys.
- trefniadau i sicrhau gwerth am arian.

Dysgu o'r dull strategol lle mae digidol yn y cwestiwn

- Yn yr un modd, bydd cynnal adolygiadau cyfnodol o effeithiolrwydd eu strategaethau yn helpu cynghorau i fireinio a gwella eu dull cyffredinol o ymdrin â digidol. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys adolygu effeithiolrwydd y trefniadau i gefnogi a chyflawni'r strategaeth.
- Bydd cael y trefniadau cywir ar waith ar gyfer prosiectau unigol yn eu helpu i

Rhannu eu gwersi

- Dylai cynghorau rannu'r dysgu o'u gwaith digidol fel mater o drefn i gefnogi strategaethau digidol yn y dyfodol, prosiectau digidol eraill a phrosiectau trawsnewid ehangach yn effeithiol.
- Canfuom fod cyfleoedd pellach i rannu'r dysgu gyda phartneriaid yn ogystal â dysgu ganddynt i gefnogi gwelliannau ehangach ar draws y sector cyhoeddus.

Enghreifftiau o arfer

Cyngor Powys: Dull systematig o ddysgu o waith ar ddigidol

Mae gan y Cyngor broses ar gyfer adolygu ei strategaeth ddigidol. Mae'r achosion busnes ar gyfer y strategaeth ddigidol yn cynnwys adolygiad o'r hyn y mae'r strategaeth wedi'i gyflawni hyd yma ac adnabod gwersi a ddysgwyd. Mae'r adolygiadau hyn wedi arwain at addasu'r strategaeth ddigidol wreiddiol, gyda rhai ffrydiau gwaith yn dod i ben ac un newydd sbon yn dechrau.

Mae'r Cyngor wedi myfyrio ynghylch effaith pandemig Covid-19 ar gyflawni ei strategaeth ddigidol. Mae'r gwersi hyn wedi cael eu cynnwys yn ffurfiol yn achosion busnes y Cyngor yn ogystal â chyda'r BGC trwy weithdai cynllunio adferiad. Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r gwersi hyn i gyfeiriad ei strategaeth ddigidol yn y dyfodol, er enghraifft trwy adnabod yr angen i ochel rhag allgau digidol. Mae'r Cyngor yn cofnodi gwersi a ddysgwyd trwy ystod o logiau swyddogol, megis achosion busnes ac adroddiadau cau prosiectau. Mae Dull Trawsnewid y Cyngor yn nodi'n glir bod rhaid i wersi a ddysgwyd gael eu hadnabod a'u cofnodi mewn logiau ffurfiol ar bob prosiect i helpu i werthuso rhaglenni. Mae'r logiau hyn yn galluogi'r Cyngor i adnabod arfer da a chyfleoedd i weithio arnynt.

Mae'r Cyngor wedi rhannu gwersi allweddol a ddysgwyd gydag ystod o bartneriaid gan ddefnyddio amrywiaeth o dulliau. Er enghraifft, fe gyflwynodd y Cyngor ddigwyddiad 'dangos a dweud' yn CLILC ar ei ffrwd waith Rhagoriaeth Gwybodaeth. Mae'r Cyngor yn cynnal log o wersi a rennir sy'n rhestru'r hyn a rannodd, gyda phwy, a sut. Mae ymagwedd gadarnhaol y Cyngor at rannu gwersi a ddysgwyd yn darparu cyfleoedd i'r Cyngor rannu arfer da a dysgu oddi wrth eraill.

Cyngor Sir Gâr: Dysgu o COVID

Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal adolygiad ffurfiol o effaith pandemig COVID-19 ar gyflawni ei gynllun digidol ac mae wedi cymhwyso'r gwersi hyn i'w gyfeiriad yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r datblygiadau o ran defnyddio technoleg i ehangu mynediad at wasanaethau yn ogystal ag awtomeiddio prosesau swyddfa gefn.

Atodiad 1: Adroddiadau ar gynghorau ledled Cymru



Atodiad 2: Ein cwestiynau a meini prawf archwilio

Ein prif gwestiwn archwilio oedd:

'Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?'

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
1. A yw strategaeth ddigidol y Cyngor wedi'i goleuo gan ddealltwriaeth dda am dueddiadau yn awr ac yn y dyfodol?	<p>1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr am yr 'hyn sydd ohoni' (h.y. y galw presennol/problemau y mae angen rhoi sylw iddynt) a'r rhesymau dros hynny/achosion sylfaenol?</p> <p>1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr am effaith y ffactorau hirdymor, ac am yr heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o hynny (e.e. risgiau a chyfleoedd)?</p>	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr am yr 'hyn sydd ohoni' a sut y mae'n debygol o newid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth (gan gynnwys data) sy'n ymwneud â:<ul style="list-style-type: none">- heriau o ran cynaliadwyedd/cadernid gwasanaethau a darparu adnoddau.- anghenion dinasyddion a chymunedau.- achosion sylfaenol y galw/problemau presennol y mae rhoi sylw iddynt.- dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a'u heffeithiau posibl, e.e. cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol. Gallent gynnwys tueddiadau hysbys e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, adnoddau naturiol sy'n lleihau ac, yn enwedig, datblygiadau technolegol. Gallant gynnwys hefyd y rhai sydd â lefel uwch o ansicrwydd, e.e. y swyddi a'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol.• Mae'r dadansoddiad o'r 'hyn sydd ohoni' a sut y mae'n debygol o newid wedi cael ei oleuo'n dda gan weithgarwch cynnwys, fel y bo'n briodol, sy'n adlewyrchu arfer da cydnabyddedig (e.e. <u>Egwyddorion Cenedlaethol ar Gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru</u>, cyngor a chanllawiau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).• Mae'r Cyngor yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth yn effeithiol i:<ul style="list-style-type: none">- nodi'r camau yn ei ddull strategol o ymdrin â digidol sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau; a- goleuo penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd o dechnoleg ddigidol sy'n ceisio taro cydbwysedd rhwng yr angen i gyflawni amcanion tymor byr a'r angen i gyflawni rhai tymor hwy.

Cwestiynau Lefel 2

2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae'n dymuno ei gyflawni trwy ddefnyddio technoleg ddigidol?

Cwestiynau Lefel 3

2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros raddfa amser briodol?

Meini Prawf

- Mae'r Cyngor wedi ystyried yr hyn y mae hirdymor yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull gweithredu digidol — h.y. pa mor bell ymlaen y gall/dylai gynllunio a pham (o leiaf ddeng mlynedd gan ystyried tueddiadau tymor hwy fel y bo'n briodol)
- Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall camau gweithredu gyflawni'r effaith orau dros y ffrâm amser honno o ran deilliannau a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Gallai hyn gynnwys ystyried pwyntiau ymyrryd priodol sy'n gysylltiedig â diffiniad y Comisiynydd o atal. (cliciwch ar y ddolen ganlynol i gael y manylion: Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu — Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru)
- Mae'r Cyngor wedi gosod mesurau ar gyfer ei strategaeth ddigidol sy'n adlewyrchu effeithiau a gwerth am arian yn y byrdymor a'r hirdymor, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu'r cynnydd fel y bo'n briodol
- Mae'r Cyngor wedi nodi sut y darperir adnoddau ar gyfer ei strategaeth ddigidol dros y tymor hwy cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol (Gweler hefyd y meini prawf sy'n ymwneud ag integreiddio)

Cwestiynau Lefel 2

Cwestiynau Lefel 3

Meini Prawf

2.2 A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei strategaeth ddigidol eu cael, gan gynnwys;

- sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?
- sut y bydd ei chyflawni'n effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (h.y. ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)?
- sut y bydd ei chyflawni'n effeithio ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (h.y. eu hamcanion llesiant)?

2.3 A oes dealltwriaeth eang a chyffredin am yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni?

- Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol wneud cyfraniad ar draws y nodau llesiant.
- Mae staff sy'n datblygu'r strategaeth ddigidol yn deall yr hyn y mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut y mae eu gwaith yn ymwneud â hynny, ac maent wedi ceisio integreiddio eu gwaith hwy gyda gwaith eu cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor a sefydliadau partner
- Mae integreiddio'n amlwg yn aliniad y strategaeth ddigidol â strategaethau corfforaethol allweddol a chynlluniau gwasanaeth eraill. Er enghraifft y cynllun ariannol tymor canolig, cynllun y gweithlu, strategaethau rheoli asedau, y datganiad llesiant a chynlluniau lleihau carbon.
- Mae'r strategaeth ddigidol yn gyson â bwriadau strategol eraill, megis:
 - profiad cwsmeriaid;
 - rheoli'r galw/lleihau'r galw sy'n deillio o fethiant ac atal; a
 - dylunio a gweithredu modelau darparu gwasanaethau newydd.
- Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn gyson â chynlluniau/strategaethau partneriaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Strategaeth ddigidol | LLYW.CYMRU a chynlluniau llesiant.
- Mae gan gynghorwyr ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ddigidol ddealltwriaeth gyffredin a chlr am yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a'r effaith fwriadedig ar ddarparu gwasanaethau.
- Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyfleu'n glir i staff a phartneriaid a allai helpu i'w chyflawni.

Cwestiynau Lefel 2

Cwestiynau Lefel 3

Meini Prawf

3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol?

3.1 A yw'r Cyngor wedi adnabod pwy y mae angen iddo eu cynnwys?

3.2 A yw'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i gynnwys amrywiaeth lawn y bobl yr effeithir arnynt gan ei strategaeth ddigidol?

3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol gyda'r partneriaid cywir?

- Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am bwy y bydd y strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ac am bwy y mae angen iddo eu cynnwys.
 - Mae'r Cyngor wedi mynd ati'n effeithiol i gynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys o ffynonellau anhraddodiadol ac o'r rhai y gall fod wedi methu â'u cyrraedd yn flaenorol.
 - Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol o adeg gynnar, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
 - Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i ddylanwadu ar ddyluniad a chyflawni ei strategaeth ddigidol.
-
- Mae'r Cyngor yn cydweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell deilliannau a gwerth am arian trwy ei strategaeth ddigidol ac mae wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft ar gyfer:
 - rhannu neu gyfuno arbenigedd ac adnoddau;
 - rhannu gwybodaeth; a
 - sicrhau monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol, gan gynnwys ystyried gwerth am arian.

Cwestiynau Lefel 2

Cwestiynau Lefel 3

Meini Prawf

4. A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer cyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddwyn manteision hirdymor/ataliol?

4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau hirdymor o ran adnoddau?

4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau er mwyn cyflawni deilliannau gwell dros yr hirdymor?

5. A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?

5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu'r cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy?

- Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau hirdymor, ataliol, a chost (ariannol ac o ran deilliannau) peidio â gwneud hynny.
- Mae'r Cyngor wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) a sut y gallai reoli risgiau/talu'r costau hynny gan gynnwys, er enghraifft, mentrau 'buddsoddi i arbed' arfaethedig a gostyngiadau a reolir mewn dyled dechnegol.
- Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud trwy weithredu ei strategaeth ddigidol.
- Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a/neu well defnydd o adnoddau dros y tymor hwy'n cael eu hybu a'u cefnogi, hyd yn oed:
 - lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor; a
 - lle y bo'r manteision yn debygol o gael eu cronni gan sefydliad arall neu eu priodoli i sefydliad arall.
- Mae'r Cyngor yn monitro costau a manteision cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian.
- Mae'r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae'r strategaeth ddigidol yn ei wneud ar draws ei amcanion ei hun/ amcanion partneriaethau.
- Mae'r cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn amcanion tymor byr, canolig a hir.

Cwestiynau Lefel 2

Cwestiynau Lefel 3

Meini Prawf

6. A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o'r ffordd y mae'n gweithio?

6.1 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol?

6.2 A yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgir o'i ddull o weithredu ei strategaeth ddigidol?

- Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys:
 - effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol;
 - effeithiolrwydd ei weithgarwch cynnwys, gan gynnwys effaith y strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgau'n ddigidol;
 - effaith y strategaeth ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig; a
 - darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol ar y cyfan o ran helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.
- Mae'r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r pandemig ac mae'n cymhwyso'r gwersi hyn i'w strategaeth ddigidol.
- Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgir o ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle y bo'n berthnasol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.